Rhif: **WG22051**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Gweledigaeth ar gyfer strategaeth gwaith ieuenctid genedlaethol newydd i Gymru 2013–2018

Dyddiad cyhoeddi: **Gorffennaf 2014**

# Gweledigaeth ar gyfer strategaeth gwaith ieuenctid genedlaethol newydd i Gymru 2013–2018

**Cynulleidfa** Sefydliadau sy'n darparu gwaith ieuenctid gan gynnwys gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol a phobl ifanc 11 i 25 oed.

**Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion a'r adborth a dderbyniwyd yn dilyn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng 18 Mehefin 2013 ac 16 Medi 2013 ar weledigaeth ar gyfer strategaeth gwaith ieuenctid genedlaethol newydd i Gymru 2013–2018.

**Camau i'w cymryd** Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Cangen Cymorth a Chanllawiau Ieuenctid
Yr Adran Addysg a Sgiliau
B3 Front
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ

e-bost: youthwork@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

ISBN digidol 978 1 4734 1797 7
© Hawlfraint y Goron 2014
WG22051

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad | 3 |
| Thema 1: Darparu addysg | 4 |
| Thema 2: Meithrin gallu | 12 |
| Thema 3: Atebolrwydd a chanlyniadau | 18 |
| Y drefn ariannu newydd arfaethedig | 25 |
| Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar-lein | 30 |
| Atodiad: Ymatebion eraill a gafwyd yn y pedwar digwyddiad ymgynghori | 33 |

# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r ymatebion a dderbyniodd Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'r ddogfen ymgynghori *Gweledigaeth ar gyfer strategaeth gwaith ieuenctid genedlaethol newydd i Gymru 2013–2018*.

Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn ar y weledigaeth am 12 wythnos rhwng 18 Mehefin 2013 ac 16 Medi 2013.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru. Derbyniasom gyfanswm o 71 o ymatebion ar-lein a phapur – 37 y cant gan y Gwasanaeth Ieuenctid Statudol, 35 y cant gan y sector gwirfoddol, 8 y cant gan sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach ac 20 y cant gan eraill na roddodd fanylion. Roedd rhai o'r ymatebion a gafwyd yn ymatebion ar y cyd gan awdurdodau lleol, sefydliadau a phobl ifanc.

Cynhaliwyd pedwar digwyddiad ymgynghori mewn gwahanol rannau o Gymru yn ystod mis Gorffennaf. Daeth cyfanswm o 131 o bobl i'r digwyddiadau. Roedd 56 y cant o'r bobl yn dod o'r sector statudol, 20 y cant o'r sector gwirfoddol, 7 y cant o waith ieuenctid yn y sector addysg (sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach) ac 17 y cant yn dod o feysydd eraill. O'r bobl a ddaeth i'r digwyddiadau, roedd 61 y cant yn uwch reolwyr, 14 y cant yn weithwyr ieuenctid llawn amser yn gweithio wyneb yn wyneb â phobl ifanc, 4 y cant yn weithwyr ieuenctid cyflogedig rhan-amser, 3 y cant yn wirfoddolwyr a'r 18 y cant arall mewn math arall o swydd.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys ymarfer ymgynghori ar wahân gyda phobl ifanc. Dyfarnwyd y contract hwn i Youth Friendly. Ceir adroddiad cryno ar wahân yn nodi ymatebion y 129 o bobl ifanc y bu Youth Friendly mewn cysylltiad â nhw.

Cafwyd cyfanswm o 319 o ymatebion – 104 gan gynrychiolwyr o'r sector statudol, 48 o'r sector gwirfoddol, 14 o sefydliadau addysg uwch/addysg bellach, 34 gan sefydliadau eraill a 129 gan bobl ifanc y cysylltwyd â nhw.

Mae pob ymateb a dderbyniwyd yn dilyn yr ymgynghoriad ar-lein a'r digwyddiadau ymgynghori wedi cael ei ystyried yn yr adroddiad cryno hwn.

Mae rhestr o'r ymatebwyr i'w gweld ar dudalen 30 (gan ddibynnu a roddwyd caniatâd i ddatgelu'r wybodaeth hon).

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Roedd papur y weledigaeth yn seiliedig ar 3 thema greiddiol a threfn ariannu newydd.

- Darparu addysg.
- Meithrin gallu.
- Atebolrwydd a chanlyniadau.

Roedd pob thema'n cynnwys 3 chynnig yn amlinellu syniadau amodol ar gyfer datblygu Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol newydd i Gymru.


Atebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr bob un o'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad. Cynigiodd llawer ohonynt wybodaeth ychwanegol i ategu'r pwyntiau ac awgrymwyd rhai newidiadau manwl. Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Mae pob ymateb wedi cael ei ystyried yn ofalus wrth i ni ddatblygu'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol newydd i Gymru.

Mae'r ymatebion a dderbyniwyd yn cael eu crynhoi dan bob un o'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

## Thema 1: Darparu addysg

## Cynnig 1: Cysoni darpariaeth y gwasanaeth ieuenctid er mwyn ategu blaenoriaethau addysg (ymatebion ar-lein)




Mynegwyd pryder ynglŷn â theitl y thema. Teimlid bod gwerth addysg anffurfiol wedi cael ei anwybyddu a bod angen i waith ieuenctid gael ei gysylltu neu ei gysoni ag addysg ffurfiol i gael ei ystyried fel rhywbeth addysgol.

Dywedasom (Llywodraeth Cymru) y byddai gwasanaethau ieuenctid yn gweithio mewn partneriaeth â'r holl ysgolion uwchradd.

Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod bod cydweithio agos rhwng gwasanaethau ieuenctid ac ysgolion yn bwysig a theimlai rhai ohonynt ei fod yn hollbwysig i bobl ifanc. Elfen ganolog o hyn hefyd oedd yr angen i addysgwyr gydnabod proffesiynoldeb gweithwyr ieuenctid. Mae llawer o'r ymatebwyr eisoes yn gweithio gydag ysgolion uwchradd er mwyn gwella ymgysylltiad a chanlyniadau i bobl ifanc.

Teimlid y dylai'r berthynas rhwng addysg anffurfiol a ffurfiol gael ei hyrwyddo o fewn y proffesiwn addysgu er mwyn cael gwell dealltwriaeth a chydnabyddiaeth o'r effaith y mae pob agwedd ar fywydau plant yn ei gael ar eu haddysg. Teimlai Grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid bod awydd gwirioneddol i wella addysg ffurfiol a phartneriaethau gwaith ieuenctid.

> 'Gall gwasanaethau ieuenctid ychwanegu llawer at brofiad pobl ifanc mewn ysgolion gan eu bod yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gysylltu dysgu

sydd heb fod yn ffurfiol a dysgu ffurfiol ac yn helpu i ddatblygu llwybrau dysgu cydlynol ar gyfer pob person ifanc.’
Addysg Hyfforddiant Safonau (ETS) Cymru

Pwysleisiodd Youth Cymru fod angen partneriaeth gyfartal yn seiliedig ar ddealltwriaeth briodol o ddulliau gwaith ieuenctid gan addysgwyr ffurfiol, ac o’r egwyddor o ymgysylltu gwirfoddol, yn hytrach na defnyddio gweithwyr ieuenctid dim ond er mwyn rheoli ymddygiad dysgwyr. Roedd ymatebwyr o’r sector gwirfoddol yn pryderu i raddau nad oedd y ddogfen yn cydnabod y rôl werthfawr roeddent yn ei chwarae wrth weithio mewn partneriaeth ag ysgolion na’r manteision i’r ysgolion hynny.

Dadleuodd Estyn na allai’r bartneriaeth ffynnu heb atebolrwydd clir o lefel prif weithredwyr awdurdodau lleol i lawr, er mwyn sicrhau bod rheolwyr addysg, rheolwyr gwasanaethau ieuenctid a thimau rheoli ysgolion yn gweithio gyda’i gilydd.

Mae ar bobl ifanc angen cefnogaeth yn yr ysgol a’r tu allan iddi. Dywedodd Wayne David AS ei bod yn ymddangos bod gormod o bwyslais o fewn y weledigaeth newydd ar ysgolion. Teimlai nad oedd ysgolion, yn draddodiadol, yn deall natur gwaith ieuenctid. Dadleuodd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW) fod angen i waith ieuenctid gael ei weld fel gwasanaeth ategol i helpu’r bobl ifanc hynny sy’n wynebu’r risg fwyaf o beidio â chyflawni. Nid oes a wnelo hyn â throi gweithwyr ieuenctid yn athrawon.

Roedd llawer o’r ymatebwyr, yn enwedig y rhai o awdurdodau lleol, yn bryderus nad oedd y ddogfen ymgynghori’n ystyried y toriadau ariannol. Roedd ansicrwydd ynglŷn â chyllid i gefnogi gwaith ieuenctid mewn ysgolion.

‘Dylid cynnwys cyfrifoldeb ysgolion a cholegau i gydariannu’r gwaith gwerthfawr hwn i gefnogi eu myfyrwyr.’
Estyn

Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cefnogi’r bartneriaeth rhwng ysgolion a gwasanaethau ieuenctid, ond teimlai fod angen gweithwyr ieuenctid â sgiliau Cymraeg ledled Cymru. Mae cyfleoedd addysg anffurfiol i bobl ifanc sy’n siarad Cymraeg yn brin ac yn dameidiog ar hyn o bryd ac mae lle i wella o ran gwaith cynllunio gwasanaethau ac ymdrechion i gynyddu sgiliau Cymraeg.

Teimlid nad oedd sefydliadau addysg bob amser yn cydnabod nac yn parchu’r rôl werthfawr y mae’r gwasanaeth ieuenctid yn ei chwarae, gan gynnwys y gwasanaeth ieuenctid gwirfoddol, a bod hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ymgysylltu. Dadleuodd UNISON nad oedd eu haelodau’n awyddus iawn i weld partneriaethau o’r fath yn cael eu gwneud yn rhy ffurfiol. Er enghraifft, mewn ardaloedd lle mae gwasanaethau ieuenctid wedi cael eu lleoli mewn ysgolion, mae hynny wedi tanseilio’r gwasanaethau ieuenctid a rhoi rôl israddol iddynt. Mae angen i’r bartneriaeth rhwng gwasanaethau ieuenctid ac ysgolion fod yn seiliedig ar bobl a chysylltiadau, yn hytrach nag adeiladau.

Mae angen cydnabod pwysigrwydd gwaith ieuenctid, gweithwyr ieuenctid a’u ffyrdd o weithio, a sylweddoli bod eu gwasanaeth yn cefnogi addysg ffurfiol. Rhaid i’r rhai

sy'n darparu gwasanaeth ieuenctid ddangos gwerth y berthynas yn glir er mwyn annog ysgolion i fanteisio arno.

Dywedasom y byddai Llywodraeth Cymru'n parhau i hybu a chefnogi hyfforddiant proffesiynol o safon uchel ac iddo gydnabyddiaeth genedlaethol i weithwyr ieuenctid ac y byddwn yn gosod targed i gynyddu nifer y gweithwyr ieuenctid sydd â chymhwyster gwaith ieuenctid a gydnabyddir gan y Cydbwyllgor Negodi.

Teimlid bod cadw a hyrwyddo hyfforddiant proffesiynol yn hanfodol, ynghyd â cheisio cynyddu nifer y staff â chymwysterau a gwella statws gweithwyr ieuenctid. Roedd pobl ifanc yn haeddu cael staff gwaith ieuenctid â hyfforddiant da i weithio gyda nhw.

> 'Dylai gofynion datblygu staff sicrhau bod gan wasanaeth ieuenctid pob awdurdod lleol staff sydd wedi cael eu hyfforddi'n llawn, staff sydd wrthi'n cael eu hyfforddi, neu staff sydd ar fin dechrau hyfforddiant. Ni ddylai unrhyw wasanaeth ieuenctid fod â staff darparu heb eu hyfforddi.'
> Estyn

Awgrymodd yr Urdd fod angen i'r sector hyfforddiant gwaith ieuenctid ddatblygu atebion mwy hyblyg i ddiwallu anghenion cyflogwyr. Roedd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO) yn anghytuno â'r targed i gynyddu nifer y gweithwyr ieuenctid sydd â chymwysterau sy'n cael eu cydnabod gan y Cydbwyllgor Negodi ond yn cefnogi'r angen am hyfforddiant o safon uchel.

Anogodd UNISON ac undeb Unite Lywodraeth Cymru i ddal i gefnogi'r Cydbwyllgor Negodi er mwyn cael safon broffesiynol ar gyfer gwaith ieuenctid.


Mynegwyd pryder nad oedd y drefn ariannu newydd a oedd yn cael ei chynnig yn cyfeirio at y grant hyfforddi. Byddai colli'r grant hwn yn rhwystro'r sector rhag datblygu. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei hymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) rheolaidd.

Dywedodd rhai o'r ymatebwyr nad oedd cyfeiriad yn y ddogfen ymgynghori at fwriad Llywodraeth Cymru i gofrestru gweithwyr ieuenctid fel rhan o'r gweithlu addysg ehangach.

Dywedasom y byddai Llywodraeth Cymru'n cynnal gwerthusiad annibynnol o ddylanwad gwaith ieuenctid mewn (a chydag) ysgolion erbyn Rhagfyr 2017.

Roedd llawer iawn o gefnogaeth i werthusiad annibynnol o'r gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru. Er hyn, teimlai rhai o'r ymatebwyr y gallai Rhagfyr 2017 fod yn rhy bell i ffwrdd i ffurfio gwaelodlin y gellid ei ddefnyddio wedyn i fesur gwelliannau i'r gwasanaeth. Dywedodd rhai y dylai'r gwerthusiad gynnwys barn pobl ifanc ynglŷn â pha mor effeithiol y mae gwasanaethau ieuenctid yn gweithio mewn ysgolion ar hyn o bryd.

## Cynnig 2: Cyfraniad y gwasanaethau ieuenctid statudol i'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid* (ymatebion ar-lein)




Dywedasom y dylai gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol gefnogi rôl ganolog wrth gyflawni'r swyddogaeth frocera gan 'weithiwr arweiniol' fel rhan o gyflawni'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid* ehangach.

> 'Credaf y gallai'r weledigaeth newydd gydnabod bod gwasanaethau ieuenctid a gwaith ieuenctid yn chwarae rhan bwysig iawn wrth atal ymddieithrio ac yn natblygiad personol/cymdeithasol pobl ifanc, sydd i gyd yn cefnogi lles.'
> Comisiynydd Plant Cymru

Roedd rhai o'r ymatebwyr, er eu bod yn cefnogi'r cynnig, yn teimlo bod angen ystyried rôl gweithiwr arweiniol yn y gwasanaeth ieuenctid yng nghyd-destun capasiti, y cyfyngiadau cyllidebol presennol a'r cydbwysedd rhwng mynediad agored a gwaith wedi'i dargedu. Galwyd am eglurhad ynglŷn â sut y mae'r rôl yn cyd-fynd â'r egwyddor o ymgysylltu gwirfoddol. Teimlai llawer o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth ieuenctid mewn sefyllfa dda iawn i chwarae rhan arweiniol yn y gwaith o ddarparu rolau gweithwyr arweiniol i bobl ifanc y mae perygl iddynt ymddieithrio. Teimlai undeb Unite fod gwasanaethau ieuenctid mewn sefyllfa ddelfrydol i gyflawni rôl y gweithiwr arweiniol gan eu bod yn gallu mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar y person cyfan.

Dadleuodd rhai o'r ymatebwyr nad oes gan y gwasanaeth ieuenctid yr adnoddau o reidrwydd a bod angen gwneud rhagor o waith i asesu pwy fyddai'r person iawn ac a ddylai ddod o'r gwasanaeth ieuenctid, y sector addysg ynteu'r sector gwirfoddol. Teimlid y dylai'r ffactor hollbwysig wrth benderfynu ynglŷn â hyn fod yn seiliedig ar yr

heriau y mae'r person ifanc hwnnw'n eu hwynebu, ei gefndir a'i brofiadau, anghenion cyfathrebu a dulliau ymgysylltu a pha gefnogaeth y mae ar y person ifanc hwnnw ei hangen a'i heisiau fwyaf.

Mynegwyd pryder ynglŷn â risg bosibl y gallai rôl y gweithiwr allweddol ddisodli rolau eraill neu y gallai'r rôl gael ei gweld fel un sy'n perthyn i awdurdodau lleol yn unig. Dadleuodd yr Urdd nad yw hon yn swyddogaeth y dylid ei chyfyngu i wasanaeth ieuenctid awdurdodau lleol. Teimlai ETS Cymru nad oedd sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol wedi cael eu cydnabod fel rhai a allai helpu i ddarparu cefnogaeth ddwys i rai pobl ifanc.

Tynnodd nifer o'r ymatebwyr sylw at gynlluniau peilot aflwyddiannus yn Lloegr, a theimlent y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r canfyddiadau i ymchwilio ymhellach i'r cysyniad hwn. Nodwyd hefyd y gallai'r hyn a oedd yn cael ei weld fel cyfeirio lefel anghymesur o adnoddau at ganran fechan o bobl ifanc (ond bwysig er hynny), amharu ar y boblogaeth ehangach. Galwyd am fwy o atebolrwydd a gwell sianeli cyfathrebu gan bawb a oedd yn ymwneud ag ymgysylltu a datblygu pobl ifanc.

Nododd Afasic Cymru y dylid cynyddu ymwybyddiaeth gweithwyr arweiniol o anabledd a darparu rhagor o hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu iddynt.

Cyfeiriodd yr ymatebwyr at y rôl y gall gwaith ieuenctid ei chwarae, ac sy'n cael ei chyflawni ganddo, wrth ymdrin â phobl ifanc â chyflawniad canolig ac uchel (dawnus a thalentog) a allai fod angen mewnbwn ategol er mwyn datblygu sgiliau ehangach (hyder cymdeithasol, cyfathrebu, gweithio mewn tîm, sgiliau bywyd, dinasyddiaeth). Cyfeiriasant at dystiolaeth gynyddol ynglŷn â manteision gwaith ieuenctid mynediad agored i bob person ifanc.


Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at y ffaith fod hyn yn digwydd yn barod mewn rhai awdurdodau lleol yng Nghymru.

Dywedasom y byddai canllawiau a phrotocolau rhannu gwybodaeth yn cael eu datblygu i gefnogi'r gwaith rhwng y gwasanaeth ieuenctid a chyrff eraill (megis Gyrfa Cymru) erbyn haf 2014.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cytuno bod canllawiau ar rannu gwybodaeth yn allweddol ac y dylai unrhyw brotocolau eraill adeiladu ar yr hyn sydd wedi cael ei gyflwyno'n barod, gan nodi unrhyw fylchau neu rwystrau. Teimlai llawer y bydd angen cymryd gofal er mwyn sicrhau nad yw rhannu gwybodaeth yn amharu ar yr ymddiriedaeth sy'n bodoli rhwng gweithwyr ieuenctid a phobl ifanc.

Cyfeiriwyd at Wasanaeth Prawf Cymru fel enghraifft o sefydliad sydd wedi ymgorffori model 'adnodd a rennir' yn y cynllun Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM Cymru). Mae'r model yn seiliedig ar ddull amlasiantaethol, cyfannol, sy'n canolbwyntio ar droseddwyr. Pwysleisiodd y gwasanaeth fod rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid yn hanfodol i lwyddiant unrhyw gynllun partneriaeth ac, o ganlyniad, gofynnodd am ystyriaeth bellach i ddatblygu protocolau rhannu gwybodaeth ehangach.

## Cynnig 3: Darparu addysg sydd heb fod yn ffurfiol ac addysg anffurfiol (ymatebion ar-lein)




Cynigiasom y dylai’r gwasanaethau ieuenctid ddal i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc sicrhau achrediadau cenedlaethol.

Cyfeiriodd llawer o sefydliadau at eu harferion gorau eu hunain wrth annog pobl ifanc i sicrhau achrediad, drwy waith prosiect a gweithgareddau, a dywedasant fod angen i achrediad ddeillio o hyn, yn hytrach na bod yn fan cychwyn.

Roedd ETS Cymru’n cytuno bod cymwysterau priodol yn hollbwysig er mwyn helpu rhai pobl ifanc i ail-ymwneud â dysgu a pharhau â’u taith ddysgu, ond pwysleisiodd fod gwasanaethau ieuenctid yn gwneud llawer mwy na hyn. Teimlai Estyn y dylai’r gwasanaeth ieuenctid wella’i waith gyda phobl ifanc drwy annog pobl ifanc i anelu at gymwysterau ag achrediad cenedlaethol os yw’r rhain yn eu helpu i gyflawni eu targedau personol.

> ‘Mae llawer o’r cyflawniadau hyn yn chwarae rhan sylweddol gan eu bod yn cydnabod cyflawniadau ehangach dysgwyr drwy gyfrannu (er enghraifft) tuag at gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Gallai cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i fwy o gydweithio, gydag ysgolion yn fwyaf arbennig, ond hefyd gydag addysg bellach a darparwyr hyfforddiant er mwyn sefydlu fframweithiau achrediad a rennir, yn cael ei ddatblygu ar lefel leol helpu i ddatblygu’r argymhelliad hwn.’
> Cyngor Dinas Caerdydd

Galwodd nifer o ymatebwyr am eglurder ynglŷn â beth yw achrediad sy’n cael ei dderbyn yn genedlaethol. Mynegwyd pryder bod achrediadau’n gostus a bod gan bobl ifanc hawl i ddewis a ydynt am ymwneud â gweithgareddau wedi’u hachredu ynteu gael eu gwaith wedi’i achredu. Mae’n bosibl y byddai problemau yn ymwneud â chyllid a chapasiti.

Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid yn cytuno â'r egwyddor o ymestyn cyfleoedd i bobl ifanc sicrhau achrediadau cenedlaethol. Fodd bynnag, roeddent yn bryderus nad yw llawer o'r achrediadau da sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol wedi'u cynnwys yng Nghronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru (DAQW), ac y gallai hynny roi llawer o bobl ifanc dan anfantais gan nad yw ysgolion yn eu cydnabod. Cyfeiriasant at y rhan bwysig y mae'r cyflawniadau hyn yn ei chwarae drwy gydnabod cyflawniadau ehangach dysgwyr a chyfrannu (er enghraifft) tuag at gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae gwaith ymchwil a wnaethpwyd yn ddiweddar yn dangos mai'r hyn y mae ar bobl ifanc ei eisiau fwyaf gan y gwasanaeth ieuenctid yw lle i fynd i gymdeithasu, lle gallant ddewis gweithgareddau amrywiol i'w gwneud mewn amgylchedd lle maent yn teimlo'n ddiogel. Felly, rhaid rhoi pwyslais ar 'gyfleoedd', a dyma un o gryfderau naturiol gwaith ieuenctid.

Dywedasom y dylai gwasanaethau ieuenctid roi cyfle i bobl ifanc ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg a chodi ymwybyddiaeth o werth diwylliant Cymru.

Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod bod hunaniaeth ddiwylliannol yn bwysig. Roedd yr Urdd yn croesawu'r cynnig, ond yn cwestiynu gallu ac adnoddau sefydliadau i gyflawni'r nod. Nododd Comisiynydd y Gymraeg fod angen datblygu sgiliau gweithwyr ieuenctid i helpu i gyflawni'r nod.

Cyfeiriodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy at y perygl y gallai'r iaith gael ei chyfyngu i'r byd academaidd. Mynegodd Youth Cymru y farn gref y dylai'r elfen hon gynnwys diwylliant Cymreig yn cael ei fynegi drwy gyfrwng y Saesneg.

Cyfeiriodd Estyn at yr angen am feini prawf gwerthuso ac atebolrwydd clir er mwyn mesur gwasanaethau ieuenctid ar lefel sy'n galw ar yr awdurdod lleol ei hun i fod yn gyfrifol am ba mor dda y mae'n rheoli'r agwedd hon ar ei waith.

Teimlid y dylai'r iaith Gymraeg gael ei hymgorffori yn y strategaeth yn hytrach na bod yn elfen sy'n cael ei hychwanegu ato. Teimlai'r bobl ifanc ei bod yn bwysig cadw'r diwylliant Cymreig yn fyw.

Dywedasom y dylai gwasanaethau ieuenctid barhau i feithrin perthynas â'r gwasanaethau iechyd er mwyn hybu canlyniadau iechyd a lles cadarnhaol.


Roedd Cyngor Dinas Caerdydd yn pryderu bod mwy a mwy o weithwyr ieuenctid yn gweld achosion o bobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl a bod angen rhoi ystyriaeth strategol i'r berthynas rhwng gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc a gwasanaethau ieuenctid. Dadleuodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful fod y ddogfen wedi'i hysgrifennu â Strategaeth NEET a Strategaeth Addysg mewn golwg, yn hytrach nag ystyried yr effaith y mae iechyd a lles meddyliol a chorfforol gwael yn ei gael ar gyrhaeddiad person ifanc a'i allu i chwarae rhan effeithiol yn ei gymuned ei hun.

Galwodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar Lywodraeth Cymru i ddylanwadu ar gyfeiriad polisi a'r modd y mae adnoddau'n cael eu dosbarthu mewn adrannau Iechyd ac adrannau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg er mwyn cynorthwyo gwasanaethau ieuenctid i gyflawni'r agenda hon.

Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ond yn cyfeirio hefyd at yr angen i gynnal elfen o annibyniaeth a gadael i wasanaethau ieuenctid sefyll ar eu traed eu hunain.

## Thema 2: Meithrin gallu

## Cynnig 4: Gweithio mewn partneriaeth (ymatebion ar-lein)




Dywedom y bydd awdurdodau lleol, drwy eu hariannu, yn cael eu cyfarwyddo i weithio gyda'r gwasanaeth ieuenctid gwirfoddol er mwyn meithrin gallu'r gwasanaeth ieuenctid yn strategol ar sail leol.

Roedd y nod o ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau mynediad agored hygyrch o safon a gwasanaethau wedi'u targedu'n cael ei groesawu. Y farn gyffredinol oedd bod angen adeiladu ar y trefniadau sy'n bodoli'n barod. Teimlai UNISON fod angen mwy o weithio mewn partneriaeth, gyda'r sector cyhoeddus yn gweithio ochr yn ochr â'r sector gwirfoddol. Teimlai'r Comisiynydd Plant y gallai cynnig lleol ar y cyd sicrhau mai anghenion pobl ifanc mewn ALI penodol yw'r ffactor canolog sy'n ysgogi newid.

Teimlai Wayne David AS fod partneriaethau'n cael eu gorfodi i weithio gyda'i gilydd oherwydd trefniadau cyllido yn hytrach na theimlo eu bod o ddifrif eisiau gweithio mewn partneriaeth. Roedd Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS) hefyd yn teimlo bod sefydliadau'n cael eu gorfodi i weithio mewn partneriaeth am resymau'n ymwneud â chyllid, ac nad oedd hynny'n sylfaen gref i ddatblygu perthynas waith lwyddiannus arni. Byddai angen i'r cyllid gael ei ddosbarthu'n deg, yn dryloyw ac yn glir. Ategwyd y farn hon gan eraill a ddewisodd beidio â chytuno nac anghytuno'n ffurfiol â'r cynnig.

Dywedodd Estyn y dylai cynllunio ar y cyd rhwng gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol gael ei ymgorffori yn y Cynllun Integredig

Sengl lleol, ac y dylid cael meini prawf gwerthuso clir ac ymestynnol er mwyn mesur datblygiad y cydweithrediad hwn a gwelliannau mewn canlyniadau. Dengys tystiolaeth arolygu Estyn fod ansawdd y trefniadau cynllunio hyn wedi bod yn wendid parhaus, ac ni fydd ailddatgan yr angen i gynllunio ar y cyd na manteision cynllunio ar y cyd yn gwella hyn o reidrwydd.

Teimlai'r ymatebwyr mai awdurdodau lleol oedd yn y sefyllfa orau i feithrin gallu ac arwain cydweithrediad, ond er bod rhai'n cytuno y dylid cyfeirio'r adnoddau drwy'r awdurdodau lleol, roeddent yn bryderus y gallai hynny fod ar draul gwaith ieuenctid cadarnhaol. Dadleuodd Gwasanaeth Ieuenctid Sir Benfro nad yr awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau ar hyn o bryd i weinyddu neu gyfarwyddo cefnogaeth i'r sector gwirfoddol. Mae'r toriadau arfaethedig yn siŵr o olygu toriadau mewn gwasanaethau ac mae hynny'n siŵr o olygu llai o gefnogaeth i'r sector gwirfoddol.

Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fod angen i bob gwasanaeth ieuenctid gael cefnogaeth i ddatblygu proffesiynoldeb a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) er mwyn gwella gallu'r sefydliadau hyn fel elfen hanfodol mewn unrhyw bartneriaeth.

Dywedasom y byddem yn datblygu cytundeb lefel gwasanaeth gofynnol i'w ddefnyddio rhwng y gwasanaeth ieuenctid gwirfoddol a statudol.

Roedd dryswch ynglŷn â'r term Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Mewn rhai achosion mae'n well gan adrannau cyfreithiol i awdurdodau lleol a chyrff y sector gwirfoddol gael Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth neu gytundebau partneriaeth wedi'u trefnu'n lleol. Byddai angen cael eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r math o gytundeb a'i statws cyfreithiol.

Mae'r gofyniad statudol, dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, i awdurdodau lleol ddarparu, sicrhau a chymryd rhan yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cefnogi ieuenctid yn amodol ar arolwg gan Estyn. Mae'r cytundebau lefel gwasanaeth presennol a ddatblygwyd yn unol â thîm cyfreithiol yr awdurdod lleol yn adlewyrchu gofynion awdurdodau ac yn cydymffurfio â Deddf 2000. Mynegwyd y farn nad yw'r cytundeb lefel gwasanaeth gofynnol sy'n cael ei argymell gan Lywodraeth Cymru'n debygol o gael ei ddefnyddio os nad yw'n adlewyrchu gofynion awdurdodau a'r gyfraith.

Teimlid hefyd na fyddai'n cael ei ddefnyddio pe na bai'n adlewyrchu gofynion ALlau. Gofynnwyd pa feysydd gwan yn y sector yr oedd y cytundeb lefel gwasanaeth yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Teimlai rhai o'r ymatebwyr y byddai cydweithio'n ddull gwell.

Teimlai undeb Unite fod angen i unrhyw gytundebau partneriaeth neu Gytundebau Lefel Gwasanaeth gynnwys yr angen i gael cymhwyster sy'n cael ei gydnabod gan y Cydbwyllgor Negodi neu'r angen i gydymffurfio â thelerau ac amodau'r Cydbwyllgor Negodi ar gyfer gweithwyr ieuenctid.

Dywedasom y dylai'r gwasanaeth ieuenctid statudol a gwirfoddol weithio gyda'i gilydd i ddatblygu cynnig ar y cyd i bobl ifanc.


Mewn egwyddor, roedd Cyngor Dinas Caerdydd yn croesawu'r cynnig ar gyfer cynllun gwaith wedi'i ddatblygu ar y cyd gan ddarparwyr y sector statudol a gwirfoddol. Galwyd am ragor o fanylion ynglŷn â'r hyn y byddai Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r awdurdod lleol ei wneud mewn cysylltiad â'r broses gynllunio.

Roedd llawer yn cefnogi'r cynnig i gydweithio er mwyn meithrin gallu a darparu cynnig y gwasanaeth ieuenctid ar lefel leol. Galwodd y sector gwirfoddol ar awdurdodau lleol i weithio mewn cysylltiad agosach â nhw ac i fod yn fwy tryloyw. Fodd bynnag, mynegodd rhai ymatebwyr bryder ynglŷn â'r sector gwirfoddol lleol, hyd yn oed y rhai â chanolfan genedlaethol, nad oeddent yn aml yn meddu ar y seilwaith na'r staff hyfforddedig i ddarparu gwasanaeth yn seiliedig ar anghenion.

Cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fod ganddynt berthynas waith agos â'r sector gwirfoddol yn barod a dadleuasant mai'r hyn a allai wneud y niwed mwyaf oedd cynnydd mewn biwrocratiaeth dim ond er mwyn 'dangos' cydweithio. Roeddent am weld y strategaeth yn cael ei hysgrifennu ar ôl trafodaethau helaeth gyda'r sector gwirfoddol a statudol ac roeddent am gael sicrwydd na fyddem yn canfod ein hunain â set o gyfarwyddebau neu benderfyniadau sy'n anfwriadol yn rhannu sefydliadau ac yn difetha'r ewyllys da sy'n bodoli ar y cyfan rhwng sectorau. Bydd rhoi'r person ifanc yn ganolog i unrhyw ddatblygiadau'n helpu i oresgyn hyn.

Cadarnhaodd Tracy Thomas fod Gwasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy wedi datblygu cynnig ieuenctid integredig ac y byddai'n croesawu'r cyfle i rannu eu profiad ag eraill. Dywedodd ymatebwyr eraill y dylem ddysgu o fodelau ymarfer da yn y Deyrnas Unedig ac Ewrop.

## Cynnig 5: Datblygu porth 'rhithiol' ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid (ymatebion ar-lein)




Dywedasom y bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phartneriaid i ystyried gwerth gwasanaeth ieuenctid rhithiol a'r rôl y gallai ei chwarae yng Nghymru.

> 'Rydym yn ymwybodol, o'n hymchwil a'n profiad, fod pobl ifanc yng Nghymru'n gwneud llawer iawn o ddefnydd o rwydweithiau cymdeithasol/digidol (Social Media Report for Cardiff Youth Service – ProMo-Cymru 2012). Mae'n amlwg bod cyfathrebu drwy'r cyfryngau cymdeithasol/digidol yn gyffredin iawn ac yn cynyddu. Mae angen i ni feddwl am bobl ifanc sy'n cael gwybodaeth am eu gwasanaeth ieuenctid drwy eu ffonau.'
> ProMo Cymru

Er bod y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn cefnogi'r cynnig dywedasant mai cryfder unrhyw waith ieuenctid yw'r berthynas bersonol sy'n cael ei datblygu gan y gweithiwr ieuenctid gyda'r person ifanc hwnnw. Pwysleisiodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr na ddylai gwasanaeth rhithiol gymryd lle gwasanaeth personol, ac na ddylid colli'r cysylltiad wyneb yn wyneb. Dywedasant y dylai fod yn ategol a chyfeiriwyd at lawer o enghreifftiau lleol o ymarfer da. Mae'n gyfle i adeiladu ar CLIC. Teimlai CWVYS ei fod yn gyfle gwirioneddol i Gymru ddangos y ffordd.


> 'Os ydym yn gwneud i ffwrdd â chyfleoedd fel hyn [cyfarfod wyneb yn wyneb], bydd pobl ifanc yn colli cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol, eu sgiliau datrys problemau a'u sgiliau bywyd – mae hyn ynddo'i hun yn arwain

at berygl y bydd pobl ifanc yn dod yn dda iawn am ddefnyddio technoleg gwybodaeth, ond yn colli'r gallu i ryngweithio â phobl eraill wyneb yn wyneb . . . Mae'n bwysig cael cydbwysedd priodol rhwng rhyngweithiadau rhithiol a gwir.'
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at y peryglon sy'n gysylltiedig â chyfryngau cymdeithasol – fel bwlio ar-lein a diogelwch. Cyfeiriodd yr ymatebwyr hefyd at yr angen i sicrhau bod y dechnoleg ar gael a nodwyd bod angen gwell cysylltiad â'r rhyngrwyd mewn ardaloedd gwledig.

Teimlid y gallai gweithwyr ieuenctid, â'r hyfforddiant priodol a digon o ddealltwriaeth, chwarae rôl gadarnhaol a helpu pobl ifanc ar-lein. Dylid gwella gwaith wyneb yn wyneb sydd wedi gweld gostyngiad yn ddiweddar o ganlyniad i'r tueddiadau ym maes cyfathrebu ar-lein. Awgrymwyd y dylid darparu Mynediad Di-wifr am ddim mewn canolfannau ieuenctid. Byddai hyn yn darparu mynediad cost-effeithiol at gyfryngau cyfathrebu cymdeithasol/digidol ac yn lleihau'r angen i ddarparu cyfarpar mwy costus. Mae angen gwneud rhagor o waith i ymchwilio i'r cysyniad hwn.

## Cynnig 6: Gwella'r ffordd o weithio gyda'r cyrff ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol (ymatebion ar-lein)




Dywedasom y dylai Llywodraeth Cymru gynnig cyfleoedd ariannu 'craidd' a chyfleoedd ariannu 'wedi'u targedu/ar gyfer prosiectau' i gyrff gwaith ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol.

Roedd y sector gwirfoddol yn croesawu'r cynnig. Roedd awdurdodau lleol ar y cyfan yn cefnogi'r cynnig. Roedd Blaenau Gwent yn bryderus y gallai arwain at ddyblygu gwasanaethau lleol. Pwysleisiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fod ymgysylltu'n seiliedig ar angen pobl ifanc ac nid ar angen sefydliadau.

> 'Wrth symud ymlaen â'r cynnig hwn byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ddeall [yr angen] i sicrhau bod trefniadau cydweithredol wedi'u sefydlu ar lefelau cenedlaethol a lleol er mwyn cydlynu gwariant.'
> Cyngor Dinas Caerdydd

Teimlai Estyn fod angen i gyrff gwirfoddol cenedlaethol ddangos sut y maent yn cyfrannu tuag at gydweithio ar lefel awdurdodau lleol a thuag at welliannau mewn gwasanaethau i bobl ifanc a'u canlyniadau.


Gofynnodd YMCA Cymru a Wayne David AS am eglurhad ynglŷn â'r hyn y mae Llywodraeth Cymru'n ei olygu wrth sôn am wasanaethau ieuenctid 'mewn lifrai'. Mae angen i ddisgrifiad o'r fath wahaniaethu rhwng sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc megis sgowtiaid a geidiaid a Chadetiaid y Lluoedd Arfog, gwasanaeth y gellid dadlau nad yw'n dilyn egwyddorion a gwerthoedd gwaith ieuenctid.

Dywedasom y byddwn yn cyflwyno trefniadau newydd i ymgysylltu â'r gwasanaeth ieuenctid gwirfoddol a hwyluso deialog ag ef.

Anogodd llawer o'r ymatebwyr a oedd yn cynrychioli mudiadau gwirfoddol Lywodraeth Cymru i ddal i gefnogi CWVYS ac i beidio â gorfodi trefniant arall llai effeithiol ar y sector gwirfoddol. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddod at ei gilydd fel un llais. Dywedodd rhai ymatebwyr fod cynrychiolaeth CWVYS wedi bod yn dameidiog yng Nghymru ac nad oedd yn gryf iawn yn y gogledd.

## Thema 3: Atebolrwydd a chanlyniadau

### Cynnig 7: Cryfhau'r sylfaen dystiolaeth drwy Fframwaith Canlyniadau a Nod Ansawdd Cenedlaethol (ymatebion ar-lein)




Dywedasom y byddem yn datblygu ac yn gweithredu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol erbyn mis Medi 2014.

> 'Rydym yn disgwyl am ddulliau mesur canlyniadau cenedlaethol a meini prawf arfarnu ers tro byd, ac maent yn hanfodol er mwyn sefydlu rheolaeth dda, effeithiol a gwell gan awdurdodau lleol, yn ogystal â darpariaeth â ffocws mwy penodol. Ni fydd y dulliau mesur hyn a gwell atebolrwydd yn ddigon ynddynt eu hunain i sicrhau bod darpariaeth addysg sydd heb fod yn ffurfiol yn cael ei gweld ar yr un lefel â darpariaeth addysg ffurfiol, ond gallai ddarparu sail dystiolaeth gryfach er mwyn ysgogi hyn.'
> Estyn

Roedd llawer yn croesawu ac yn cefnogi'r cynnig hwn i ddatblygu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn bryderus nad oedd digon o amser i ddatblygu a gweithredu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol erbyn mis Medi 2014.

Dywedwyd y dylai'r fframwaith fod yn fwy hygyrch i fudiadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr ac na ddylid cael 'gormod o fiwrocratiaeth'. Gofynnwyd am set eang o ganlyniadau er mwyn i feysydd a phrosiectau unigol allu dangos sut y maent yn cyfrannu tuag at ganlyniadau cenedlaethol yn lleol. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol

Torfaen yn cydnabod bod pob gwasanaeth ieuenctid yn wahanol, â gofynion ac amgylchiadau daearyddol gwahanol, ac na fyddai fframwaith cenedlaethol yn ymarferol. Dywedodd yr Urdd y dylai'r fframwaith gynnwys dulliau a fyddai'n addas i'w gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dywedodd Cyngor Sir Ddinbych y dylai ymarferwyr ymwneud â phob agwedd ar ddatblygu fframwaith er mwyn sicrhau y bydd y fframwaith yn seiliedig ar yr hyn y gellir ei gyflawni yn ymarferol â'r adnoddau sydd ar gael. Cadarnhaodd Grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid fod grŵp rhanbarthol o awdurdodau lleol eisoes wedi dechrau cofnodi canlyniadau.

Roedd Prawf Cymru'n cefnogi'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol a oedd yn cael ei gynnig er mwyn cyflawni amcanion gofynnol gwella atebolrwydd a darparu dulliau effeithiol o fesur perfformiad/cynnydd. Teimlid bod fframwaith o'r fath yn debygol o ddarparu sail a chadarnhad ffurfiol o'r dystiolaeth anecdotaidd sy'n tynnu sylw at werth y gwasanaeth y mae'r gwasanaeth ieuenctid yn ei gynnig i bobl ifanc ledled Cymru.

Dywedasom y byddem yn datblygu Nod Ansawdd y Gwasanaeth Ieuenctid ac yn ei roi ar waith erbyn mis Rhagfyr 2014.

Anogodd yr ymatebwyr Lywodraeth Cymru i beidio ag ailddyfeisio nod ansawdd os oes nodau eraill a allai fod yn addas. Mae ETS Cymru yn gwneud trefniadau ar hyn o bryd i dreialu Nod Ansawdd y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio ar lefel sefydliadol yn bennaf tra mae gan CWVYS ei Nod Ansawdd ei hun ar gyfer gweithgaredd gwaith ieuenctid.

Teimlai Cyngor Sir Ddinbych na fyddai'n realistig rhoi Nod Ansawdd y Gwasanaeth Ieuenctid ar waith erbyn mis Rhagfyr. Dylai'r nod ansawdd gael ei roi ar waith mewn modd nad yw'n achosi rhagor o gostau i wasanaethau nac yn rhoi pwysau ar gapasiti. Mae perygl i hyn arwain at ragor o drefniadau biwrocrataidd sy'n dod yn 'ddiwydiant bach' nad yw'n gwneud llawer iawn mewn gwirionedd i godi safonau ymarfer gwaith ieuenctid.

Dywedwyd y dylai'r Nod Ansawdd gael ei ddyfarnu gan bobl annibynnol fel Estyn neu gynrychiolwyr Grŵp Cyfeirio'r Gwasanaeth Ieuenctid. Dylai fod ar gael i bob darparwr gwaith ieuenctid.

Bydd y cynnig i ddatblygu Nod Ansawdd yn sicrhau bod y gweithgareddau a'r ymyriadau y mae pobl ifanc yn eu profi yn gyson dda ac yn darparu canlyniadau cadarnhaol a fydd yn dal i ennyn diddordeb pobl ifanc a thrwy hynny'n gwella ansawdd eu bywydau.

Dywedasom y byddem yn datblygu Archwiliad Cenedlaethol blynyddol y Gwasanaeth Ieuenctid fel arf ar gyfer meincnodi ac adnabod arfer o safon.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid datblygu'r archwiliad. Teimlid bod yr archwiliad presennol yn colli mwy nag y mae'n ei ddal. Gofynnwyd a fyddai modd i'r archwiliad gynnwys canlyniadau.

> ‘Nid yw Archwiliad Cenedlaethol y Gwasanaeth Ieuenctid wedi cael llawer o effaith hyd yn hyn fel dull o feincnodi a nodi ymarfer o safon gan ei bod yn anodd cael gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol i adrodd ar sail diffiniadau sy’n cael eu derbyn yn gyffredin ar gyfer ei fesurau.’
> Estyn


Roedd Gwasanaeth Pobl Ifanc Abertawe’n credu bod yr archwiliad yn syniad cadarnhaol ond roeddent yn bryderus y byddai rhywfaint o ddryswch gan fod y gwasanaethau ieuenctid yn gweithio mewn cymaint o wahanol strwythurau. Roedd Cyngor Sir Ddinbych yn credu bod diffygion yn y drefn archwilio bresennol ac roeddent yn amau a fyddai’r archwiliad yn mesur y dangosyddion priodol sy’n adlewyrchu’r hyn y dylai’r gwasanaeth ieuenctid fod yn ei ddarparu.

Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod bod y sector gwirfoddol yn chwarae rhan allweddol yn y gwasanaeth ieuenctid ac y dylai gael cymaint o gefnogaeth ag sy’n bosibl i gymryd rhan yn Archwiliad Cenedlaethol y Gwasanaeth Ieuenctid er mwyn creu darlun cliriach. Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y dylai archwiliad cenedlaethol y gwasanaeth ieuenctid gynnwys ystadegau yn ymwneud â’r sector gwirfoddol er mwyn rhoi darlun cynhwysfawr o weithgareddau gwaith ieuenctid sy’n digwydd yng Nghymru. Cyfeiriasant at ddatblygiadau ar lefel leol i gynnwys gwybodaeth ystadegol sy’n cael ei chasglu gan fudiadau gwirfoddol cenedlaethol sy’n cael cymorth grant gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Er hyn, byddai ar wasanaethau ieuenctid lleol angen adnoddau er mwyn sicrhau bod y gallu ganddynt i gasglu’r ystadegau.

Dywedasom y byddem yn cynnal arolwg annibynnol o ddylanwad Gwasanaethau Ieuenctid ar gyfer darparu gwasanaethau ieuenctid yn y dyfodol yng Nghymru.

Teimlid y dylai unrhyw arolwg gael ei gynnal yn fuan os am nodi arferion da. Mynegwyd pryder y byddai angen i arolwg o’r fath nodi cyfres o ddulliau mesur effaith wedi’u dewis yn ofalus i fod yn gydnaws at ei gilydd â natur ac ystod y ddarpariaeth gwaith ieuenctid sy’n cael ei ‘chynnig’ i bobl leol.

## Cynnig 8: Datblygu ymgynghoriad ar ganllawiau statudol (ymatebion ar-lein)




Dywedasom y byddai Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Grŵp Cyfeirio'r Gwasanaeth Ieuenctid (gweler Cynnig 9) er mwyn dwyn ynghyd gyngor ynghylch manteision posibl canllawiau newydd ar gyfer gwasanaethau ieuenctid gan ffafrio rhoi'r rheini ar sail statudol.

Roedd cefnogaeth yr ymatebwyr a oedd yn cynrychioli awdurdodau lleol yn amrywio. Roedd nifer o'r ymatebwyr, megis Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a'r Comisiynydd Plant yn amau a oedd angen y canllawiau gan fod gan y gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru sail statudol yn barod o ganlyniad i Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Mae'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig â darparu gwaith ieuenctid hefyd yn cael eu hamlinellu yn Atodiad 8 i'r ddogfen Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Gofynnodd Cyngor Sir Ddinbych pa 'ganllawiau newydd' sydd eu hangen ac a fydd cael sail statudol yn gwella canlyniadau i bobl ifanc. Bydd angen i'r canllawiau ystyried yr hinsawdd economaidd sydd ohoni a'r pwysau ar y sector cyhoeddus yn sgil y toriadau ariannol.


Nid oedd rhai o'r ymatebwyr yn argyhoeddedig bod gweithredu canllawiau statudol cryfach yn ddigon ynddo'i hun i ddarparu gwell canlyniadau i bobl ifanc. Tynnwyd sylw at adroddiadau Estyn ar y Bartneriaeth Pobl Ifanc a oedd yn dangos nad oedd canllawiau statudol yn unig yn gwella canlyniadau i bobl ifanc.

Dywedodd rhai o'r ymatebwyr fod fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r cyfarwyddiadau a'r canllawiau wedi cael ei addo ond na welwyd mohono byth a theimlent y byddai'n werth ailedrych ar y canllawiau presennol, â chymorth grŵp cyfeirio, ar gyfer gwasanaethau cymorth i bobl ifanc yn gyffredinol.

Roedd ETS Cymru'n croesawu'r ymrwymiad i ddatblygu canllawiau cadarnach i awdurdodau lleol ar ymarfer eu cyfrifoldebau statudol yng nghyswllt gwaith ieuenctid. Roedd Youth Cymru'n cefnogi drafftio canllawiau statudol i gefnogi rheolwyr gwaith ieuenctid lleol mewn awdurdodau lleol wrth iddynt geisio sicrhau bod y symiau dangosol o arian a oedd yn cael eu darparu drwy'r Grant Cynnal Refeniw cyffredinol yn cael ei wario mewn gwirionedd ar waith ieuenctid – yn wahanol i'r sefyllfa bresennol. Byddai gwerth unrhyw ganllawiau'n dibynnu ar eu natur. Teimlent y dylid rhoi sylw i hyn drwy Grŵp Cyfeirio'r Gwasanaeth Ieuenctid, a byddent yn cefnogi edrych ar y gwaith a oedd yn cael ei wneud o gwmpas digonolrwydd darpariaeth chwarae er mwyn cael rhyw syniad sut y gellid gwneud y gwaith hwn.

Teimlai Estyn y dylid defnyddio canllawiau statudol er mwyn sefydlu llinell atebolrwydd glir ar gyfer canlyniadau gwasanaeth ieuenctid o'r awdurdod lleol ei hun ynghyd â'i bartneriaid strategol ac nid o wasanaeth awdurdod lleol yn unig, i Lywodraeth Cymru. Dylai'r atebolrwydd hwn gynnwys dadansoddiad o'r ganran o'r dyraniad gwasanaeth ieuenctid tybiannol yn y setliad refeniw sy'n cael ei gwario ar ddarpariaeth gwasanaeth ieuenctid sy'n gysylltiedig â chanlyniadau. Heb eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r canlyniadau y mae'n disgwyl i wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol a'u partneriaid eu sicrhau â'r cyllid sy'n cael ei ddarparu, a chynnwys elfennau craidd unrhyw gynnig yn y cwricwlwm, teimlai Estyn na fyddai'r rhagolygon ar gyfer newid yn addawol iawn.

## Cynnig 9: Arweinyddiaeth, goruchwylio a chyngor (ymatebion ar-lein)




Dywedasom y byddem yn sefydlu Grŵp Cyfeirio'r Gwasanaeth Ieuenctid a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o blith rhanddeiliaid allweddol, ac yn adrodd yn uniongyrchol i Weinidogion ac yn eu cynghori ynghylch rhoi'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid ar waith.

Roedd llawer iawn o gefnogaeth i'r syniad o sefydlu Grŵp Cyfeirio'r Gwasanaeth Ieuenctid. Er hyn, roedd ar rai rhanddeiliaid eisiau rhagor o fanylion ynglŷn ag arbenigedd ac aelodaeth arfaethedig y grŵp gan nad yw'r papur ymgynghori'n ymdrin â hynny. Cafwyd awgrymiadau amrywiol ynglŷn â phwy ddylai fod yn aelodau o'r grŵp cyfeirio – rhanddeiliaid mewn gwasanaethau statudol a gwirfoddol, pobl ifanc, undebau llafur a Gweinidogion gan y byddai hyn yn cysylltu datblygiadau mewn nifer o adrannau a meysydd polisi cysylltiedig. Roedd yr ymatebwyr i gyd yn awyddus i weld aelodaeth gytbwys – statudol a gwirfoddol, lleol a chenedlaethol, gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc a grwpiau cydraddoldeb – na fyddai'n chwilio am fudd personol. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gellir cynnwys staff rheng flaen yn ogystal ag uwch swyddogion ac arweinwyr strategol yn y sector a sut y dylai'r grŵp adlewyrchu barn pobl ifanc.

Roedd y cynnig ar gyfer grŵp cyfeirio'n cael ei weld fel fforwm ar gyfer ymarfer da. Gallai roi cyfle i ymarferwyr hyrwyddo gweithgareddau a budd gwaith ieuenctid, i lefelau uwch o lywodraeth ganolog a lleol a rhanddeiliaid eraill, gan nad oes gan y sector gorff sy'n cynrychioli buddiannau ac yn datblygu ansawdd gwaith ieuenctid yng Nghymru. Dywedodd CLILC mai Cymru yw'r unig wlad yn y Deyrnas Unedig nad oes ganddi gorff sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo buddiannau gwaith ieuenctid. Er bod y gwasanaeth ieuenctid statudol yn derbyn y gellir gwneud mwy i ymgysylltu â

lefelau uwch o lywodraeth ganolog a lleol a rhanddeiliaid eraill, nid oes gan y sector gorff sy'n cynrychioli buddiannau ac yn datblygu ansawdd gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn credu bod aelodaeth Grŵp Cyfeirio'r Gwasanaeth Ieuenctid yn hollbwysig er mwyn gwneud y cysylltiad strategol – ar draws pob maes polisi. Galwodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar bob rhanddeiliad i gael ei gynrychioli gan fod ar wasanaethau ieuenctid angen dull gweithredu amlasiantaethol. Pwysleisiodd Cyngor Sir Ddinbych ei bod yn bwysig iawn sicrhau bod cynrychiolaeth dda o faes ymarferwyr gwaith ieuenctid a bod y rhaglen waith wedi'i seilio ar sefyllfaoedd go iawn ac nid yn cael ei gyrru yn ei blaen gan academyddion. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am i addysgwyr gael eu cynnwys fel aelodau o'r grŵp. Roedd Gwasanaeth Ieuenctid Wrecsam hefyd eisiau i Draig Ffynci gael ei gynnwys.

Dywedasom y byddem yn sefydlu 'cymunedau arbenigol' i rannu a datblygu arfer da gyda golwg ar y strategaeth hon a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru.


Mynegwyd pryder, gan Gynghorau Sir Dinbych a Cheredigion yn fwyaf arbennig, ynglŷn â diffyg eglurder ynglŷn â sut y bydd y cymunedau arbenigol yn cael eu sefydlu a'u datblygu. Pa wybodaeth 'arbenigol' ac a yw hyn yn wybodaeth arbenigol am y sector gwaith ieuenctid ynteu a yw'n ehangach na hynny.

> 'Mae dogfen y weledigaeth yn rhy gyfyngedig i ddangos cwmpas ac ehangder ymarfer da ar draws y sector gwasanaeth ieuenctid yn ei gyfanrwydd. Byddem hefyd yn awgrymu bod rhannu ymarfer da'n berthnasol i ymyriadau gyda phobl ifanc a hefyd i arweinyddiaeth a rheolaeth y ddarpariaeth gwasanaethau ieuenctid.'
> Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Roedd Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn teimlo bod angen i gymunedau arbenigol ddatblygu fel elfen hanfodol o unrhyw ymarfer, nid fel arf marchnata ar gyfer ymarfer 'da' nac i ddangos cydymffurfiad ag unrhyw bolisi penodol gan y llywodraeth, ond fel elfen ganolog ac annatod o'r ffordd y mae addysg anffurfiol yn cael ei hymarfer.

# Y drefn ariannu newydd arfaethedig

## Ymatebion i'r cynnig ariannu




Mynegwyd nifer o bryderon ynglŷn â'r Grant Cynnal Refeniw. Nid yw llawer o wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yn derbyn y dyraniad sy'n cael ei argymell o'r Grant Cynnal Refeniw. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r anghysonderau yn y grant. Gofynnwyd am eglurhad a fyddai'r Grant Cynnal Refeniw yn dal i gael ei neilltuo. Cyfeiriodd Estyn at yr angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Grant Cynnal Refeniw'n cael ei wario'n briodol ar bobl ifanc.

Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y dylai pob sefydliad sy'n cael ei ariannu gael y nod ansawdd gwaith ieuenctid.

Cynigiasom grant gwasanaeth ieuenctid newydd.

Gofynnodd yr ymatebwyr i Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae'n bwriadu cysoni'r gwaith sy'n deillio o waith sy'n cael ei ariannu â grant a gwaith craidd y gwasanaeth ieuenctid sy'n cael ei ariannu drwy'r Grant Cynnal Refeniw.

Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr i Lywodraeth Cymru ystyried y ffaith fod gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yn wynebu toriadau a theimlent na fyddai llawer o'r uchelgeisiau sydd yn nogfen y weledigaeth ar gyfer gwasanaethau ieuenctid yn cael eu cyflawni heb fuddsoddiad newydd. Dywedasant hefyd fod darpariaeth mynediad agored yn prysur ddiflannu wrth i gynghorau ganolbwyntio ar waith ieuenctid wedi'i dargedu.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn awyddus i weld cyllid yn cael ei ddyrannu ar sail eu hagendâu eu hunain – megis dwyieithrwydd, diweithdra ymhlith pobl ifanc, pobl ifanc NEET; amddifadedd; a phroblemau byw yng nghefn gwlad. Roedd Cyngor Sir Powys yn awyddus i gael sicrwydd na fyddai gormod o amodau ynghlwm wrth drefniadau ariannu gan y byddai hynny'n atal arloesedd, creadigrwydd a'r gallu i ddiwallu anghenion lleol. Roeddent yn croesawu'r cynnig i gyfeirio cyllid i wasanaethau ieuenctid statudol i gefnogi grwpiau ieuenctid gwirfoddol.

Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fod tair o'r pedair ffrwd ariannu'n cael eu cynnig i'r sector gwirfoddol yn unig a bod y bedwaredd wedi'i chyfeirio at awdurdodau lleol. Mae'r grant refeniw presennol ar gyfer gwaith ieuenctid wedi cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd arloesol ac mae wedi arwain at ddatblygu cynlluniau na fyddent wedi gallu cael eu hariannu â'r gyllideb graidd. Gallai gwanhau'r ffrwd ariannu hon – ac mae'n ddigon posibl y bydd hynny'n digwydd – gael effaith andwyol ar y gwasanaeth ieuenctid sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd i bobl ifanc Conwy. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid i'r sector gwirfoddol. Er hyn, roeddent yn bryderus y byddai'r cynnig yn arwain at ddisgwyliadau annheg. Dywedasant hefyd fod disgwyl i Grant y Gwasanaeth Ieuenctid feithrin gallu yn y sector gwirfoddol er bod y sector gwirfoddol yn gallu manteisio ar lawer mwy o wahanol ffynonellau cyllid allanol na'r sector a gynhelir.

Mynegwyd pryder ynglŷn â cholli Grant Hyfforddi'r Gwasanaeth Ieuenctid. Byddai hyn yn cael effaith negyddol ar y gallu i ddarparu hyfforddiant i weithwyr ieuenctid awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol.

Dadleuodd Mantell Gwynedd fod angen ailedrych ar y drefn ariannu. Teimlent fod elfennau y gellid ailedrych arnynt er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian a gwell canlyniadau. Mae ariannu'r sector gwirfoddol yn uniongyrchol yn cynnig mwy o gyfle i feithrin gallu lleol.

Roedd Youth Cymru'n cefnogi defnyddio'r Grant penodol ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid a oedd yn cael ei roi i ALlau, ond maent yn amau a fydd mudiadau gwirfoddol, yn enwedig mudiadau gwirfoddol lleol, yn gallu cael cyfran deg o'r adnoddau hyn. Roedd AVOW yn pryderu y bydd mudiadau trydydd sector lleol yn colli cyfleoedd i gael cyllid. Teimlent nad yw hwn yn ddull cydgysylltiedig sy'n galluogi mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau ieuenctid cenedlaethol a lleol.

Cynigiasom grant Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol newydd ar gyfer arian craidd ac ar gyfer prosiectau.

Roedd CWVYS yn croesawu'r grant Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol ar gyfer gweithgaredd craidd a phrosiectau wedi'u targedu. Gofynasant i Lywodraeth Cymru ymgynghori rhagor ynglŷn â'r Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol mewn da bryd cyn y grant newydd. Roedd Youth Cymru'n croesawu'r cynnig i adfer y grant Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol. Teimlent fod hyn yn bwysig iawn er mwyn galluogi cyrff gwirfoddol cenedlaethol i gefnogi'r gwaith o weithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Llywodraeth Cymru.

Dywedodd llawer o'r ymatebwyr ei bod yn bwysig, er mwyn osgoi dyblygu, ac er mwyn symleiddio adnoddau a gweithgareddau lleol, bod unrhyw gyllid sy'n cael ei ddyrannu i Gyrff Ieuenctid Cenedlaethol yn cael ei integreiddio'n glir â chynlluniau sirol lleol. Roedd yr ymatebwyr yn gobeithio y byddai hyn yn sicrhau'r gwerth gorau am arian a'r canlyniadau gorau i bobl ifanc.

Dywedodd Cymunedau a 'Sgolion fel Tîm (CaST) Cymru fod cyllid tymor byr yn achosi llawer o anawsterau a gofynasant i Lywodraeth Cymru ystyried cyllid tymor hwy er mwyn cael sicrwydd ac er mwyn galluogi datblygiad sylweddol. Cynigiwyd cyllid tair blynedd i gefnogi gwaith cynllunio a sicrhau bod modd dal i ddarparu. Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryder bod perygl i'r dasg o bennu cyllid ymwneud mwy â gallu sefydliad i lunio tendr da yn hytrach na'i addasrwydd i gyflawni'r gwaith.

Cynigiasom grant Cymorth i'r Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol newydd.

Roedd y Clybiau Bechgyn a Merched yn siomedig nad yw CWVYS wedi'i gynnwys yn y drefn ariannu newydd arfaethedig ac y bydd cronfa newydd yn cael ei lansio o 2014–15 ymlaen i gefnogi'r gwasanaeth ieuenctid gwirfoddol. Gofynasant i Lywodraeth Cymru roi rhagor o gefnogaeth i CWVYS i'w galluogi i gyflawni mwy.

Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod angen i fudiadau gwirfoddol lleol gael digon o gyllid er mwyn iddynt allu cynnig darpariaeth mynediad agored gan sicrhau eu bod yn ennyn diddordeb y bobl ifanc sy'n ymddieithrio fwyaf. Roedd CaST Cymru yn poeni y bydd mudiadau gwirfoddol lleol yn cael eu gwthio i gyd-fynd ag ALlau ac na fyddent yn gallu lleisio'u barn ar lefel genedlaethol. Roedd PAVO yn bryderus nad oes sôn yn y cynigion ariannu am gyllid a fyddai ar gael i nifer bach ond pwysig o grwpiau ieuenctid annibynnol, nad ydynt yn gysylltiedig â sefydliad mwy.

Awgrymodd Youth Cymru y dylai Llywodraeth Cymru ohirio cyflwyno'r grant Cymorth i'r Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol tan 2015–16 ac adfer y Grant Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol yn 2014–15. Awgrymasant hefyd y gellid ychwanegu grant arall – cymorth i gydweithio. Awgrymodd yr Urdd y dylai'r sector ieuenctid gwirfoddol sy'n cynnwys cyrff cenedlaethol a lleol annibynnol fod yn rhan o ymgynghoriad llawn ynglŷn â beth fyddai orau i'r sector ieuenctid gwirfoddol. Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y dylai'r sector gwirfoddol ddefnyddio grant hyfforddi yn benodol er mwyn gwella proffesiynoldeb, gan gysylltu'n uniongyrchol â Chynnig 4.

**Roedd y sylwadau eraill a wnaethpwyd yn cynnwys y canlynol.**

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn anghytuno â chael strategaeth newydd sy'n seiliedig ar y tair thema greiddiol. Roedd cefnogaeth dda i'r thema atebolrwydd a chanlyniadau. Cyfeiriodd llawer at bwysigrwydd cadw pobl ifanc yn ganolog i'r strategaeth newydd. Awgrymwyd hefyd y dylai'r weledigaeth ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru fod yn fwy cyfannol, gan edrych ar bob agwedd ar waith ieuenctid a nodi beth y gall gwaith ieuenctid helpu pobl ifanc i'w gyflawni yn eu bywydau.

Teimlir bod yr ymgynghoriad yn gyfle i edrych o'r newydd ar waith gwasanaethau

ieuenctid yng Nghymru. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cytuno ar y cyfan â'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori ac yn croesawu'r gydnabyddiaeth bod gwaith ieuenctid yn addysgiadol ac yn hwyl. Er hynny, teimlid:

- bod y ddogfen yn gyfyngedig, a bod nodau'r weledigaeth yn adlewyrchu rhan yn unig o'r holl wahanol agweddau ar y gwasanaeth
- bod y ddogfen yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflogaeth a materion NEET (ac er bod hon yn rôl bwysig, ni ddylai gael ei gweld fel canolbwynt gwaith ieuenctid)
- bod gwaith ieuenctid yn ategu addysg ffurfiol a bod yn rhaid iddo fod ar wahân i addysg ffurfiol os am barhau'n effeithiol
- bod angen ystyried statws gweithiwr ieuenctid yng nghyswllt cymwysterau. Roedd cynyddu cymwysterau'n cael ei groesawu
- bod llawer o reolwyr gwasanaethau ieuenctid yn methu â dylanwadu ar bolisi ieuenctid yn eu hawdurdodau lleol, gan fod eu statws cymharol ar lefel swyddogion iau at ei gilydd, ac nid yw gwaith ieuenctid yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth
- nid oes digon o gysylltiad rhwng setiau o ganllawiau gan wahanol adrannau yn Llywodraeth Cymru, rhai ohonynt yn ymdrin ar wahân â blaenoriaethau fel 'tlodi' a 'theuluoedd yn gyntaf' ond sydd angen i'r un sefydliadau ac asiantaethau weithio gyda'i gilydd ar lawr gwlad.

Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod y pwyntiau canlynol ar goll.

- Gwerth darpariaeth mynediad agored a chynnig gweithgareddau cadarnhaol, pethau i'w gwneud, cyfleoedd i gymysgu â phobl ifanc eraill a rhoi cynnig ar brofiadau newydd.
- Rôl cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gwasanaeth ieuenctid.
- Sut i sicrhau bod anghenion plant sydd ag anabledd yn cael eu cydnabod ac nad ydynt yn cael eu cau allan.
- Cofrestru'r gweithlu addysg ehangach.
- Cysylltiadau â chwaraeon, y celfyddydau creadigol, y celfyddydau perfformio a'r celfyddydau gweledol, gwaith ieuenctid rhyngwladol, gwahaniaethau rhwng bechgyn a merched a gwaith ieuenctid byd-eang.
- Canolbwyntio ar gymryd rhan a chynhwysiant cymdeithasol.

Dywedodd llawer o'r ymatebwyr y dylai gwaith ieuenctid mynediad agored gael ei gydnabod fel dull ataliol o weithio gyda phobl ifanc. Os na fydd y strategaeth derfynol yn cynnwys darpariaeth mynediad agored mae perygl y bydd y ddarpariaeth yn cael ei cholli. Mae angen i'r strategaeth derfynol ddangos mwy o ddealltwriaeth o werth darpariaeth mynediad agored neu gallai Llywodraeth Cymru, yn anfwriadol, fod yn rhoi gwaith ieuenctid mynediad agored sy'n darparu rhwyd ddiogelwch bwysig i lawer o bobl ifanc yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig yn y fantol.

Teimlir y bydd strategaeth sydd wedi'i diffinio'n glir yn helpu pawb sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid i ddatblygu strategaethau a chynlluniau priodol er mwyn darparu gwasanaethau ieuenctid llwyddiannus i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Roedd yr iaith yn y ddogfen yn ddryslyd ambell waith ac yn codi amheuaeth –

gwasanaeth ieuenctid ynteu waith ieuenctid. Galwyd am eglurder ynglŷn â 'gwaith ieuenctid', 'gwasanaethau ieuenctid' a 'gwasanaethau cymorth ieuenctid'.

Teimlid nad yw llais pobl ifanc yn ddigon amlwg drwy'r ddogfen ymgynghori hon. Yn ychwanegol at hyn, nid oes sôn na thystiolaeth bod asesiad o'r effaith ar hawliau plant wedi cael ei wneud wrth baratoi'r strategaeth arfaethedig fel sy'n ofynnol dan y Mesur Hawliau Plant.

Teimlai un ymatebydd yn gyffredinol mai'r hyn sydd wedi cael ei gynhyrchu yw dogfen geidwadol nad yw'n ysbrydoli nac yn darparu llwyfan ar gyfer dull cadarn o ddatblygu strategaeth addysg fwy cyfannol. Mae'n anwybyddu uchelgais Cynulliad Cymru i fod yn gorff democrataidd sy'n ceisio hyrwyddo dull gweithredu sy'n cael ei ddisgrifio fel 'Tîm Cymru'. Cadarnhawyd y farn hon pan hawliwyd ein bod yn 'ceisio gwneud pethau'n wahanol yng Nghymru – drwy ein dull 'Gwnaed yng Nghymru' . . . fel ffordd o greu atebion Cymreig unigryw i broblemau Cymreig'.

Dywedodd Estyn fod tystiolaeth yn dangos bod llwyddiant trefniadau partneriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc wedi cael ei atal yn sylweddol yn y 10 mlynedd diwethaf gan ddiffyg cydlyniant yn y gwasanaethau cymorth ieuenctid ac arweiniad gwan. Mewn achosion lle mae partneriaethau wedi bod yn llwyddiannus maent wedi cael cefnogaeth ac wedi cael eu dylanwadu'n uniongyrchol gan uwch reolwyr ac arweinwyr. O ganlyniad i hyn, mae cynnydd tuag at gyflawni nodau Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 ac Ymestyn Hawliau wedi bod yn amrywiol ac yn araf.

Mae gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru mewn sefyllfa dda i ddatblygu eu gwaith ymhellach er mwyn cyflawni blaenoriaethau Gweinidogion, megis NEET, drwy weithio ar y cyd ac mewn partneriaeth â gwasanaethau eraill amrywiol, a dyna holl bwrpas sefydlu'r trefniadau partneriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r cytundeb lefel gwasanaeth yn darparu strategaeth seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer awdurdodau lleol a phartneriaethau.

Galwodd yr ymatebwyr am fwy o eglurder, ac am nodi'n benodol pa un ai gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol ynteu wasanaethau ieuenctid gwirfoddol a olygir, yn hytrach na chyfeirio atynt fel gwasanaethau ieuenctid.

## Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar-lein

Hoffai Llywodraeth Cymru fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn.


| | |
|---|---|
| Addysg a Dysgu Gydol Oes Cyngor Caerdydd | Nick Batchelor |
| Addysg Hyfforddiant Safonau (ETS) Cymru | Gareth Newton |
| Afasic Cymru | Zein Pereira |
| Bro Morgannwg | Andrew Borsden |
| Cangen UCU Prifysgol Metropolitan Caerdydd | |
| CaST (Cymunedau a 'Sgolion fel Tîm) Cymru | Pam Boyd a Suzanne Barnes |
| Clybiau Bechgyn a Merched Cymru | Joff Carroll |
| Connect Cymru | Tina Simmons a Grant Poiner |
| Consortiwm Prosiectau Ieuenctid Annibynnol a Sefydliadau 3ydd Sector ehangach (Sir Benfro) | Lee Hind |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Anne Flanagan |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Richard Sexty |
| Cyngor Sir Conwy | Jane E. Williams |
| Cyngor Sir Ddinbych | Roger Ellerton |
| Cyngor Sir Penfro | Eirian Evans |
| Cymdeithas Chwaraeon Cymru | |
| Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys | Yvonne Owen-Newns |
| Cymunedau yn Gyntaf, Blaenau Gwent | Helen Madden |
| Chwarae Cymru | Mike Greenway |
| Chwarae Teg | Christine O'Byrne |
| Diverse Cymru | Ele Hicks |
| Estyn | Gerard E Kerslake, Arolygwr Ei Mawrhydi |

| | |
|---|---|
| Grŵp Addysg Ariannol Bersonol | Kim Hodgkinson |
| Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid Sir Fynwy | Tracey Thomas |
| Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent | Joanne Sims |
| Gwasanaeth Ieuenctid CBS Torfaen | |
| Gwasanaeth Ieuenctid CBS Pen-y-bont ar Ogwr | Jeanette Denley |
| Gwasanaeth Ieuenctid Powys | Geoff Moore |
| Gwasanaeth Ieuenctid Powys | Mike Griffiths |
| Gwasanaeth Pobl Ifanc Abertawe | |
| Gyrfa Cymru | Ray Collier |
| Mantell Gwynedd | Carwyn Humphreys |
| Marine Society and Sea Cadets (MSSC) | Martin Coles |
| NASUWT Cymru | Chris Keates |
| New Swansea Bay | Dr Peter Bush |
| NUT Cymru | Owen Hathway |
| Plant yng Nghymru | |
| Pobl Ifanc Sir Gaerfyrddin | Wedi'i baratoi gan Sarah Powell a Kathryn Jones |
| Prawf Cymru | Paul Rees |
| ProMo Cymru | Marco Gil-Cervantes |
| Prosiectau Ieuenctid Sir Benfro a Sefydliadau 3ydd Sector ehangach | |
| Small Ship Management | Chris Cororan |
| TAPE Music and Film | Sean Pritchard |
| UCAC | Rebecca Williams |
| Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU) Cymru | Lisa Edwards |
| Undeb Unite | Andrea Jones |


| | |
|---|---|
| UNISON Cymru | Dominic MacAskill |
| Y Ganolfan Cynllunio Iaith | Gareth Ioan |
| Youth Cymru | Helen Mary Jones |

## Atodiad 1: Ymatebion eraill a gafwyd yn y pedwar digwyddiad ymgynghori


1. Ydych chi'n gweithio yn:





2. Ydych chi'n:




3. Er mwyn cefnogi ymgysylltu a datblygu pobl ifanc dylai gwasanaethau ieuenctid weithio mewn partneriaeth â phob ysgol uwchradd, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg.





4. Pa un o'r datganiadau isod yw'r disgrifiad gorau o berthynas eich sefydliad ag ysgolion uwchradd yn eich ardal?




5. Byddai pobl ifanc yn elwa pe bai gan wasanaethau ieuenctid berthynas agosach a mwy strategol â cholegau addysg bellach.





6. Pa un o'r datganiadau isod sy'n disgrifio orau sut rydych chi'n teimlo ynglŷn â sut y gellid datblygu proffesiynoldeb a chymeradwyedd gweithwyr ieuenctid?




7. Mae gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol mewn sefyllfa dda i gefnogi ymgysylltu â rhai grwpiau o bobl ifanc a'u helpu i symud ymlaen i addysg a hyfforddiant prif ffrwd, ac i gyflawni rôl y 'gweithiwr arweiniol'.





8. Pa un o'r datganiadau isod yw'r disgrifiad gorau o rannu gwybodaeth yn eich gwasanaeth ieuenctid?




9. Dylai gwasanaethau ieuenctid ddal i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc gael achrediadau cenedlaethol.





10. Pa un o'r datganiadau a ganlyn sy'n disgrifio orau sut rydych chi'n teimlo ynglŷn â gwasanaethau ieuenctid, yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?




11. Mae gan wasanaethau ar y we rôl bwysig i'w chwarae yn nyfodol darparu gwasanaeth ieuenctid.





12. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaethau ieuenctid gwirfoddol a statudol yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ddarparu cyfleoedd gwaith ieuenctid o safon i bobl ifanc.




13. Pa un o'r datganiadau isod sy'n disgrifio orau eich barn ynglŷn â'r berthynas rhwng y sectorau gwasanaeth ieuenctid gwirfoddol a statudol yn eich ardal?




14. Pa un o’r datganiadau isod sy’n disgrifio orau sut rydych chi’n teimlo ynglŷn â’r ffordd y dylai Llywodraeth Cymru fod yn cyfeirio cyllid i helpu i feithrin gallu ac adeiladu partneriaethau cryfach rhwng gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol?





15. Dylai’r gwasanaeth ieuenctid statudol a gwirfoddol weithio gyda’i gilydd i ddatblygu cynnig ar y cyd i bobl ifanc ar sail leol/ranbarthol.




16. Gyda pha un o'r datganiadau isod rydych chi'n cytuno?





17. Mae'r gefnogaeth sy'n cael ei darparu gan sefydliadau seilwaith y trydydd sector (WCVA/Cynghorau Gwirfoddol Sirol) i gyrff ieuenctid gwirfoddol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn ddigon i sicrhau gwaith ieuenctid deallus o safon uchel.




18. Pa un o’r datganiadau isod sydd yn eich barn chi’n hollbwysig er mwyn helpu i ddangos effaith gwaith ieuenctid?





19. Mae Archwiliad Cenedlaethol blynyddol y Gwasanaeth Ieuenctid yn dangos allbynnau. Â pha un o’r datganiadau isod rydych chi’n cytuno?




20. Bydd canllawiau statudol ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru'n sicrhau canlyniadau llawer gwell i bobl ifanc.




21. Mae trefniadau digonol yn bodoli ar hyn o bryd er mwyn gallu rhannu arbenigedd ac arferion da ar draws y sector gwaith ieuenctid.



22. Bydd y drefn ariannu newydd arfaethedig yn cynorthwyo gwasanaethau ieuenctid i gynnig darpariaeth gwaith ieuenctid o safon uwch i bobl ifanc.




23. Dylai'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol newydd fod yn seiliedig ar y tair thema graidd; Darparu addysg, Meithrin gallu, Atebolrwydd a chanlyniadau.

